
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 17.04.18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton – Cadeirydd.
Y Cynghorydd Nia Jeffreys – Is-gadeirydd.

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Freya Bentham, Steve Collings, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Paul Rowlinson a Cemlyn Williams.

Aelodau Cyfetholedig: David Healey (ATL) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

Swyddogion yn bresennol: Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)
Einir Thomas (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Aled Evans, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Elfed Roberts a Gareth Williams; Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a Rita Price (Yr Eglwys Gatholig).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2018, fel rhai cywir.

5. DEILLIANAU CYFNOD SYLFAEN GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno canlyniadau'r adroddiad a gomisiynwyd i'r Cyfnod Sylfaen.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Er bod canfyddiad bod sgiliau cymdeithasol yn is mewn plant nag yn y gorffennol, bod perfformiad Gwynedd o ran y dangosydd personol a chymdeithasol yn uchel ac yn awgrymu nad yw'n gymaint o broblem â'r ffactor ieithyddol.
- Bod y ffaith bod perfformiad plant Gwynedd o ran allbwn yn 3ydd drwy Gymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, gan gynnwys y maes iaith, yn awgrymu bod y gyfundrefn gynradd yn ei chyfanrwydd yn gwneud ei gwaith a bod plant yn gadael y gyfundrefn gynradd gyda'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.
- Dylid rhoi pwysau ar lywodraethwyr i wneud pob ymdrech i gyflogi siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob swydd mewn ysgol, er y cydnabyddir bod hynny'n gallu bod yn her mewn rhai ardaloedd.
- Bod yr adroddiad yn neidio o un peth i'r llall yn hytrach na chanolbwyntio ar y cyfnod sylfaen yn unig.
- Bod sawl cyfeiriad yn yr adroddiad at wanychu'r Gymraeg, e.e. y sylw nad yw pob aelod o staff yn cadw at bolisi iaith yr ysgol bob amser a'u bod yn troi i'r Saesneg i siarad â disgyblion di-gymraeg. Hefyd, mae awgrym yma y caniateir i blant ymateb i brofion drwy'r Saesneg pan mae'r sefyllfa'n codi, yn groes i'r polisi o ymateb i brofion drwy'r Gymraeg. Rhaid cofio hefyd, wrth sôn am ddisgyblion 'Saesneg fel iaith ychwanegol', bod y Saesneg hefyd yn iaith ychwanegol i'r 64% o blant Gwynedd sy'n dod o aelwydydd Cymraeg.
- Nad oes unrhyw reswm pam na all pob plentyn, ar wahân i newydd-ddyfodiaid, ddilyn eu holl gwrs ysgol drwy'r Gymraeg.
- Bod y lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hysgolion cynradd yn fater o bryder a rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder neu mae perygl y bydd y niferoedd yn gostwng i'r fath raddau fel na ellir cyfiawnhau'r polisi o gwbl.
- Mae cydnabyddiaeth bod yr addysg drochi yn y cyfnod sylfaen yn allweddol bwysig a bod y canolfannau iaith yn chwarae rôl hynod bwysig yn trochi disgyblion CA2.
- Er y deallir nad oes yna lefydd gweigion wedi bod yn y canolfannau iaith hyd yma, pe cyfyd sefyllfa o'r fath yn y dyfodol, gellid ystyried y posibilrwydd o ymestyn y ddarpariaeth yn ehangach na blwyddyn 2 yn unig, ond gan gadw mewn cof mai ieuenga'n byd yw'r plant, lleiaf perthnasol yw'r cwrs ar eu cyfer.
- Bod lle i gryfhau'r elfen pontio rhwng y cyfnod sylfaen a'r cylchoedd meithrin ym maes llafaredd. Mae yna bobl arbennig o dda yn y cylchoedd meithrin yn hyrwyddo sgiliau caffael iaith a hefyd arbenigedd amlwg yn y cyfnod sylfaen all gynorthwyo'r cylchoedd meithrin hefyd fel bod gwaelodlin y plant yn gwella pan maent yn cyrraedd yr ysgol.
- Na chredir bod gwerth mewn sefydlu canolfannau iaith penodol i ddysgu Saesneg i blant, gan nad ydi dysgu'r Saesneg yn broblem i neb oherwydd dylanwadau'r iaith honno ar blant o bob cyfeiriad. I'r gwrthwyneb, mae'r Gymraeg yn wan o ran cyfleoedd i'w siarad y tu allan i'r ysgol.

- Bod rôl i'r aelodau, fel cynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion cynradd, ddyllanwadu i sicrhau bod y polisi iaith yn cael ei weithredu'n gadarn o fewn yr ysgolion.
- Bod y chwyldro technolegol sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod angen taro cydbwysedd rhwng gwneud yn siŵr bod plant yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr naturiol â phobl, tra'n sicrhau ar yr un pryd, o ystyried y gofynion fydd arnynt maes o law ym maes cyflogaeth, nad ydynt yn cael eu hamddifadu o'r profiadau a ddaw i'w rhan o'r rhyngwyneb technolegol.
- Bod y toriad yn y grant gwella addysg yn destun pryder sylweddol o gofio bod tua 60% o'r grant yn mynd tuag at gyflogi cymorthyddion y cyfnod sylfaen. Gan fod rhai o'r cymorthyddion wedi derbyn codiadau cyflog yn ddiweddar, ac nad oes modd i'r Cyngor ariannu codiadau yng nghyflogau swyddi sy'n cael eu hariannu drwy grant, mae llai o arian ar gael i gyflogi cymorthyddion yn gyffredinol.
- Bod torri arian y cymorthyddion yn cynyddu baich gwaith athrawon a bod angen parhau i herio llywodraethau San Steffan a Chymru ynglŷn â'r sefyllfa.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r ysgolion am eu hymdrechion yn y maes cyfnod sylfaen, ac yn benodol ym maes y Gymraeg, gan nodi bod tystiolaeth yn dangos bod plant, erbyn cyraedd 11 oed, yn cyflawni yn briodol a thu hwnt i'w hoedran ymhob maes, gan gynnwys y Gymraeg.

Cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at y gyfres o brif argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad gan egluro bod rhai ohonynt yn argymhellion i'r awdurdod ac eraill yn argymhellion i GwE. Byddai'n sicrhau bod yr argymhellion i'r awdurdod yn ffurfio rhan o gynllun busnes y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen a bod yr argymhellion i GwE wedi'u hymgorffori yn y fanyleb y gofynnir amdani.

Rhybuddiodd yr Aelod Cabinet y byddai'n anodd gwireddu nifer o'r argymhellion oherwydd y toriad yn y grant gwella addysg.

Cytunwyd i gyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor hwn ar effaith gweithredu'r argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad.

6. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYHNHWYSIAD

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn rhoi amlinelliad o'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad newydd a ddaeth i rym ym Medi 2017, gan fanylu ar brif lwyddiannau'r gwasanaeth a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach i sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bartneriaeth Awdurdodau Addysg Cynghorau Gwynedd a Môn.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Canmolwyd y rhaglen Rhwyd Arall sy'n cefnogi rhieni lle bo ansicrwydd neu ddiffyg dealltwriaeth o oblygiadau addysgu gartref a nodwyd bod unigolion sydd wedi bod allan o'r gyfundrefn addysg am flynyddoedd wedi symud yn ôl i addysg prif lif gyda mewnbwn y rhaglen yma a Comic Relief. Datganodd y Cynghorydd Cemlyn Williams fuddiant personol gan ei fod yn gyfarwyddwr ar Gwmni Sylfaen oedd wedi bod â chysylltiad â'r rhaglen hon yn y gorffennol. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

- Bod yr ysgolion yn gwbl greiddiol i lwyddiant y gyfundrefn newydd a'i bod yn bwysig bod yr athrawon / cymorthyddion yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i symud hyn ymlaen.
- Bod cefnogaeth y Bwrdd Iechyd yn greiddiol i lwyddiant y gwasanaeth hefyd.
- Mynegwyd pryder bod gan y Gwasanaeth Cwnsela restr aros o bron i 100 ar hyn o bryd, ond croesawyd y cydweithio hefo CAMHS. Nodwyd bod y gwaith hwn yn croesi maes sawl pwyllgor craffu a bod athroniaeth ataliol yn amlygu ei hun fwyfwy yn yr ysgolion hefyd. Nodwyd yr angen i edrych ar y rhesymau dros y cynnydd mewn gorbryder ymhlith pobl ifanc.
- Nad oes cyfeiriad yn yr adroddiad at blant abl a thalentog, sydd hefyd yn blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Bod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn y prif lif.
- Bod y cynlluniau datblygu unigol yn ddogfennau maith sy'n creu baich gwaith ychwanegol i ysgolion.

Gofynnwyd i'r Swyddog Addysg Ardal roi ei argraffiadau o sut 'roedd pethau wedi mynd hyd yma ac unrhyw broblemau a ragwelai ar y gorwel. Nododd:-

- Bod y newidiadau wedi bod yn sylweddol ac yn arwyddocaol, nid yn unig i gynnwys yr hyn a gynigir i ysgolion a'r ffordd o weithio gydag ysgolion, ond hefyd o ran y gweithio ar draws dwy sir.
- Mai elfen bwysig o lwyddiant Gwedd 1 o'r adolygiad strategol oedd bod y broses drwyddi draw wedi bod yn adweithiol i unrhyw newid wrth i'r broses honno fynd rhagddi. Gan hynny, 'roedd yna bethau wedi newid yn barod i ymateb i sylwadau ysgolion ac i wneud y gwasanaeth hyd yn oed yn fwy llyfn.
- Gan fod y maes yn eang iawn a chwestiynau'n mynd i godi'n aml, y sefydlwyd y grŵp defnyddwyr fel bod y broses o wella'n mynd rhagddi'n barhaus.
- Y byddai Gwedd 2 o'r adolygiad yn golygu mwy o newidiadau eto a byddai'r hyn a ddysgwyd o Wedd 1 yn cael ei ymgorffori yng Ngwedd 2 fel bod modd edrych ar hynny fel rhan o briff y camau nesaf.
- Bod y cynllun o resymoli'r tîm, ayb, wedi cyfarch hanner yr arbedion ariannol disgwylidig a'r hanner arall wedi dod o leihau'r gyllideb integreiddio a bod hynny wedi'i foddelu i'r ysgolion yn barod yn y cyllidebau y maent wedi'u derbyn.

Nododd yr Aelod Cabinet y bwriedid adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn flynyddol, neu'n amlach, ar gynydd y cynllun, gan awgrymu mai'r amser gorau i wneud hynny fyddai diwedd Hydref / Tachwedd gan y byddai hynny'n caniatáu dal i fyny yn sgil absenoldeb y disgyblion dros wyliau'r haf cyn i'r asesu ddigwydd. Hefyd, byddai'r newidiadau i'r gwasanaeth yn gliriach erbyn hynny.

Derbyniodd y pwyllgor bod y cynllun hyd yn hyn yn llwyddiannus gan edrych ymlaen at weld yr hyn fydd yn digwydd yn y camau nesaf.

7. EGWYDDORION ADDYSG ADDAS I BWRPAS

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn ceisio barn y pwyllgor craffu ar yr egwyddorion addysg arfaethedig fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r Llywodraethwyr a'r ysgolion, a gweledigaeth yr Adran Addysg, gofynnwyd yn benodol am farn aelodau'r pwyllgor craffu ar yr egwyddorion canlynol, a ystyrir yn sail i gyfundrefn addysg Gwynedd i'r dyfodol:-

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw;
- Dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth oedd i law, amlygwyd y sylwadau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:-

- Rhaid bod yn glir ynglŷn â beth fydd effaith mabwysiadu'r egwyddorion hyn.
- Mae'n debygol y bydd yna dorri athro neu oriau athro mewn rhai ysgolion a bydd hynny'n anodd iawn i bennaeth, yn enwedig os yw'n rheoli dwy neu dair ysgol.
- Dechrau'r daith yw hyn ac mae tipyn mwy o waith a chraffu i'w wneud.
- Mae'r diffyg ymgeiswyr ar gyfer swyddi drwy drwch yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn destun pryder.
- Mae'r gyfundrefn yn rhy dameidiog i fod yn denu'r genhedlaeth nesaf o arweinyddion. Er enghraifft, nid oes cyfle i bennaethiaid adrannau yn yr ysgolion uwchradd lleiaf eu maint feithrin sgiliau i fod yn arweinwyr oherwydd, fel adrannau un person, nid oes ganddynt yr amser i arwain yr adran na neb yn yr adran i'w rheoli. Hefyd, gan fod ysgolion cynradd yn aml yn rhy fach i gael dirprwy bennaeth, nid oes cyfle yno chwaith i bobl ddatblygu sgiliau arwain.
- Mae'r gofynion sylweddol uwch sy'n cael eu gosod ar bobl o ran addysgu ac arwain yn golygu bod swyddi mewn ysgolion wedi mynd yn llawer llai atyniadol.
- Gallai'r cwestiynu yn yr holiadur fod wedi bod yn fwy treiddgar, e.e. yn hytrach na gofyn yn unig am farn ar y datganiad "*Mae'n bwysig rhoi digon o amser i Bennaethiaid reoli ac arwain ...*", dylid hefyd bod wedi gofyn ydi'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad er gwaethaf goblygiadau hynny.
- O ran yr awgrym y dylai penaeithiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion, y dymunir gweld tystiolaeth gadarn i gefnogi hynny ar ffurf gwaith ymchwil yn y wlad yma ac ar draws Ewrop i'r maint o ysgol sy'n gweithio orau ac yn rhoi'r canlyniadau gorau i blant.
- Er y croesawir y bwriad i uno rhai ysgolion bychain i'w gwneud yn fwy hyfyw, nad yw hynny'n ymarferol bosib' yn y Wunedd sydd ohoni ac y byddai'r pennaeth yn treulio cyfran helaeth o'i amser yn teithio rhwng y naill safle a'r llall.
- Bod polisi recriwtio'r colegau, sy'n mynnu bod rhaid i'r sawl sy'n dymuno dilyn cwrs ymarfer dysgu feddu ar radd 2:1, yn golygu bod pobl ifanc yn mynd dros y ffin i Loegr i hyfforddi fel athrawon a bod hynny, yn ei dro, yn arwain at brinder athrawon yn lleol.
- Bod recriwtio athrawon ym Meirionnydd a Dwyfor yn arbennig o broblemus gan nad yw athrawon arbenigol mewn gwahanol bynciau yn awyddus i ddysgu mewn ysgolion sy'n methu cynnig profiad 6ed dosbarth iddynt.
- Bod Ysgol Uwchradd Tywyn, sydd â 280 o blant yn unig, wedi cael adroddiad penigamp gan Estyn yn ddiweddar, felly pam ystyrir bod angen 900 o ddisgyblion i ysgol fod yn hyfyw?
- Mai'r ffordd ymlaen o ran sicrhau dyfodol ysgolion gyda niferoedd llai o ddisgyblion / athrawon yw drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg, megis

Skype, lle gall plant mewn un ysgol ymuno â gwersi mewn ysgol arall lle mae athro yn arbenigo yn y pwnc.

- Na ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau heb ymgynghori'n gyntaf gyda'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio a dylid rhagdybio bob amser yn erbyn cau ysgolion.
- Gan y bydd nifer o benaethiaid yn cyrraedd oed ymdeol yn y blynyddoedd nesaf, dylid paratoi'n ddigonol ar gyfer hynny, e.e. drwy ddarparu portffolio yn amlygu manteision dysgu yng Ngwynedd a'i gylchredeg yn eang.
- Mae swyddi dysgu yng Ngwynedd yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor yn unig a phrin bod pobl sy'n dysgu mewn rhannau eraill o'r wlad yn edrych ar hynny. Dylid hysbysebu swyddi'n ehangach a thrwy hynny ddenu athrawon yn ôl i'r sir.
- Pryderir y byddai cael trefniadau cydweithredol rhwng ysgolion uwchradd yn effeithio ar yr ysgolion dysgu gydol oes a sefydlwyd yn y Bala a Dolgellau.
- O safbwynt dysgu ystod oedran, mae partneriaethu yn debygol o olygu symud plant o un ysgol i'r llall a'r unig ffordd o wneud hynny, yn y pen draw, yw drwy gau ambell ysgol.
- Y cefnogir yr egwyddorion yn gyffredinol, ond cydnabyddir bod heriau enfawr i allu darparu hyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 1.00yp.